COFNODION DRAFFT CYNGOR BRO LLANGELER 26 – 10 – 2026

Cofnodion Drafft Cyfarfod Misol Nos Lun Hydref 26ain 2026 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

1. **10/26 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Ken Howell, Cynghorwyr: Jamie Ayres, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Marc Rees, Gethin Richards, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith, Clerc – Stella Jones.
Hefyd yn bresennol: Cyfieithydd, Mr & Mrs Daniel Rees, Felindre (gwestai).
10/26 YMDDIHEURIADAU: Cyng J Crossley, A Edwards, E Samson, A Thomas, CSG. H Evans

Ar ddechrau'r Cyfarfod cyflwynodd y Cadeirydd Tlws a Thystysgrif i Mr Daniel Rees ar rhan y Cyngor i gydnabod ei berfformiad fel Arweinydd a Llysgennad i Drefach Felindre yn Eisteddfod y Garreg Lâs, Awst 2026

2. **10/26 DATGANIADAU DIDDORDEB :-**
Ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth yn ymwneud a Ceisiadau Cynllunio

3. **10/26 HEDDLU:** – PC Llŷr Edwards, PCSO J Kedward – nodwyd bod cwynion wedi dod am y parcio ar tro Pensarn – *holi'r Cyngor Sir ar beth sy'n digwydd ar rhan y llinellau melyn. Soniwyd am gŵn mewn tŷ ar un o hewlydd cefn Saron sy'n rhoi ofn i gerddwyr sy'n pasio'r lle.*

4. **10/26 COFNODION:**
i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Medi 28ain 2026
Cynnig: Cyng Delyth Evans Eilio: Cyng Marc Rees

6. **10/26 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – *diweddariad – gweler Adroddiad Pwyllgor*
10. ii.06/24 Les Cae Chwarae Parc Puw – *diweddariad – dim i adrodd – Clerc i holi'r cyfreithwyr beth yw'r sefyllfa ynghylch derbyn y les wedi arwyddo*
13.4.ii.06/26 Meinciau -Benches – *meinciau wedi cyrraedd ac mae dwy wedi ei rhoi mewn lle – un gyferbyn a'r Hen Rheithordy ac un gyferbyn a Neuadd yr Eglwys Penboyr[y ddwy i amnewid meinciau oedd wedi torri]*
10.i.09/26 Toiled Parc Puw toilet – dim ond un pris roedd y Clerc wedi cael ar gyfer byrddau gorchuddio'r waliau – *mae angen mesur y ddau doiled er mwyn cael amcan o faint o fyrddau sydd angen i wneud y gwaith*

7. **10/26 GOHEBIAETH:**
i. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 28/09/2026 - 02/10/2026 – cylchlythyrwyd
ii. ebost – CSG – Diweddariad i Gynghorau Tref a Chymuned – *cylchlythyrwyd*
iii. ebost – CSG – Cronfa Ynni Adnewyddadwy Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin - *cylchlythyrwyd*
iv. ebost – Dydd Iau 15/10/2026 "Diwrnod Shwmae Su'mae Day" – *cylchlythyrwyd*
v. ebost – Ofwat Survey – *cylchlythyrwyd*
vi. ebost – Bwyd Sir Gâr Food Newsletter - October 2026 – *cylchlythyrwyd*
vii. ebost – CSG – Cau hewl dros dro Cwmcych SA38 9RR - C3290 – *cylchlythyrwyd*
viii. ebost – ULI C– Llywodraeth Cymru: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru – Galwad am Dystiolaeth – cylchlythyrwyd
ix. ebost – CSG – Digwyddiad Ffyrdd o gael Gwaith Hydref 2026 – *cylchlythyrwyd*
x. ebost – OPCC - Bwletin CHTh – *cylchlythyrwyd*
xi. ebost – CSG – Cylchlythyr y Biwro – *cylchlythyrwyd*
xii. ebost – CSG – Diweddariad i Gynghorau Tref a Chymuned – *cylchlythyrwyd*
xiii. ebost –Ysgol Brynsaron – *cylchlythyrwyd*
xiv. ebost – CSG – Cau Hewl ar Frys C1295 from Felindre, Llandysul Emergency Road Closure – *cylchlythyrwyd*
xv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 05/10/2026 - 09/10/2026 – *cylchlythyrwyd*
xvi. ebost – CSG – Cau Hewl ar frys CU5470 Velindre, SA44 5XB – *cylchlythyrwyd*
xvii. ebost –Cau hewl ar frys C1295 from Felindre, Llandysul - 14.10.2026 – 7 diwrnod – *cylchlythyrwyd*
xviii.ebost – ULIC - Rhifyn 5 'Y Llais 'Y Llais'-- *cylchlythyrwyd*
xix. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 12/10/2026 - 16/10/2026 – *cylchlythyrwyd*
xx. ebost – CSG – Cau hewl dros dro U5401 Rhiwberfe, Pentre-Cwrt, Llandysul - 26.10.2026 – *cylchlythyrwyd*
xxi. ebost – CSG –Cau hewl dros dro U5470 Saron SA44 5EJ – *cylchlythyrwyd*
xxii. ebost – ULIC – E bwletin – *cylchlythyrwyd*
xxiii. ebost – CSG – Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygwyr: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 - *cylchlythyrwyd*
xxiv. ebost – CSG - Temporary road closure: C1294 Cwmduad SA33 6AU – *cylchlythyrwyd*
xxv. ebost – Awdit Cymru – 2025-26 cwblhau archwiliad – *cylchlythyrwyd*
xxvi. ebost – Statement-of-Payments-Community-and-Town-Councils-Advice – *cylchlythyrwyd*
xxvii. ebost – Llunio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gyda'n Gilydd – *cylchlythyrwyd*

8. **10/26 CYNLLUNIO**
CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI LLAWN
PL/10998 - Annedd newydd arfaethedig gan gynnwys gwaith cysylltiedig - Nantoer, Pentrecagal, Newcastle Emlyn, SA38 9HT – *dim gwrthwynebiad*
PL/11403 - Trosi garej, porth newydd, dymchwel adeilad allanol presennol ac adeiladu garej ar wahân - Tynewydd, Pentrecagal, Newcastle Emlyn, SA38 9HT – *dim gwrthwynebiad*

_____Cadeirydd _____Dyddiad

COFNODION DRAFT

9. 10/26 MATERION ARIANNOL

1. i.Cyllid – Cyfrif Cyfredol - Arian yn y Banc ar 21/10/2026.....£27,139.16
ii.Cyfrif wrth Gefn 21/10/2026 [cynnwys llog] £46,574.68
iii. Derbyniwyd y Cyfrifon wedi ei Awdito gan Awdit Cymru a'i cael yn gywir gydag argymhellion am Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol

2. a.Anfonebau

i. TRYWYDD [Hydref] .....£
ii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG HALL [Hirio Neuadd] £17.00
iii. LLOYDS BANK [ffi] £8.25
iv. TIMPSONS [tlws] £55.00
v. CLAIRE REES £100.00
vi. RYAN JONES £1,600.00
vii EDF £156.74

b. S/O neu DD

i. Cyflog y Clerc £580.00

3. Apêl am Nawdd Ariannol

i. Ysgol Brynsaron - £300 – cynigiwyd ac eiliwyd
ii.Ambiwlans Awyr - £200 – cynigiwyd ac eiliwyd

10. 10/26 MATERION ANGEN TRAFODAETH

i. Sul y Cofio – pawb i gyfarfod yn yr ysgol am 10 o'r gloch er mwyn cerdded draw i'r eglwys a'r Gwasanaeth i ddechrau am 10.15yb o dan ofal Y Parch Wyn Thomas
ii. Mainc ar gyfer Pentrecwrt – Nododd y Cynghorydd Howell nad oedd lle ar y sgwâr ym Mhentrecwrt, ac gan fod dwy fainc yno mewn cyflwr gwael, cytunwyd y dylid eu symud o'r safle. Mae angen lleoliad ar gyfer y drydedd fainc.

11. 10/26 ADRODDIAD PWYLLGOR

Is Bwyllgor Byrddau Llwybrau Gwlân – Rhoddodd y Cynghorydd J Ayres adroddiad byr ar y sefyllfa bresennol gan nodi bod y gwaith ysgrifenedig i gyd wedi ei wirio a'i fod wedi cael gwybodaeth gyda Debbie o'r Amgueddfa Wlân fod patrymau i'r gwahanol ffatrioedd ar gael ganddi. Dangosodd esiamplau o fodel rhagarweiniol o'r wybodaeth ar wahanol feintiau o fyrddau.

12. 10/26 Dyddiad y Cyfarfod nesaf a lleoliad

Nos Lun Tachwedd 30ain 2026 am 7.30yh Neuadd yr Eglwys, Penboyr

13. 10/26 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng D Evans – i. nododd bod Bore Coffi i'w gynnal yn Neuadd y Ddraig Goch fore Sadwrn y 7ed o Dachwedd gan Ferched y Wawr gyda'r elw at ymchwil Cancr Cymru
2. Cyng G Richards – i. nododd bod Cyfarfod Blynyddol Parc Saron ar y 15ed o Dachwedd yn Llwyndafydd
3. Cyng M Rees – i. roedd wedi cael gair oddiwrth Huw Williams, Penllwyn Coch bod angen torri tu fewn cloddiau Cwmins Waungilwen. Cytunwyd dylai Mr Huw Evans ymweld a'r safle ac yna adrodd nôl i'r Cyngor. ymddiheiriodd na fyddai yn bresennol yng nghyfarfod Tachwedd gan y byddai yn gweithio gyda'i gwmni yn y Ffair Aeaf
4. Cyng A Schiavone – i. dwedodd bod angen penderfynnu ar yr enwau cywir i'w rhoi ar y Byrddau Llwybrau Gwlân e.e Drefach Felidre neu Velindre. Dwedodd Cyng Aled Eynon bod rhestr swyddogol ar gael gan y Cyngor Sir – gofynnwyd iddo anfon hon ymlaen i'r Clerc er mwyn ei ystyried gan y Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00.yh

_____Cadeirydd _____Dyddiad

COFNODION DRAFFT